| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **CYNGOR** |
| **Dyddiad:** | **2 Mawrth 2023** |
| **Teitl:** | **Adolygiad Blynyddol – Polisi Tâl y Cyngor** |
| **Pwrpas** | **Mabwysiadu Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2023 / 24** |
| **Awdur:** | **Dafydd Gibbard – Prif Weithredwr** |
| **Cadeirydd y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |

**CEFNDIR**

1. Ers 2012 mae yna ddyletswydd statudol ar bob Cyngor i fabwysiadu polisi tâl yn flynyddol. Mae'r gofyn statudol hwnnw yn nodi mai swyddogaeth i'r Cyngor llawn yw cymeradwyo'r polisi tâl.

2. Wrth fabwysiadu'r polisi ar gyfer 2012 / 13, penderfynodd y Cyngor llawn ofyn i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion gynnal adolygiad blynyddol o gynaladwyedd y polisi tâl i'r dyfodol a chyflwyno argymhellion i gyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis Mawrth pob blwyddyn.

3. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynnwys y drafft o bolisi tâl ar gyfer 2023 / 24 yn ei gyfarfod ar y 10fed o Chwefror eleni, a chyflwyno argymhelliad i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar yr 2il o Fawrth.

**PRIF SWYDDOGION**

4. Yn nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref 2022, cyflwynais adroddiad mewn ymateb i gais penodol gan Aelodau'r Pwyllgor yn ôl ym mis Chwefror 2021. Roedd yr adroddiad yn dod i gasgliadau terfynol ar adolygiad o gyflogau prif swyddogion y Cyngor. Roedd fy nghasgliadau yn ddilyniant i asesiad cychwynol a gynhaliwyd gan y cyn-brif weithredwr yn ôl ym mis Chwefror 2021.

5. Yn ystod y cyfarfod ym mis Hydref y llynedd, tynnais sylw'r Pwyllgor at brif ganfyddiadau'r cyn-brif weithredwr wrth ystyried yr angen i adolygu cyflogau rhai swyddi prif swyddogion. Roedd y prif weithredwr ar y pryd wedi dod i gasgliad fod yna bellach risg i allu'r Cyngor i recriwtio a chadw i rai swyddi uwch swyddogion, a hynny am fod cyflogau yn anghystadleuol â swyddi tebyg mewn awdurdodau cyfagos. Roedd fy asesiad diweddaraf innau yn dod i'r un casgliadau.

6. Yn dilyn trafodaeth ar y pwnc fis Hydref 2022, daeth y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i benderfyniad mai'r argymhelliad i'r Cyngor llawn yw y dylid diwygio'r Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu addasiad yn nghyflogau rhai o swyddi penaethiaid adran y Cyngor. Mae'r drafft o ddatganiad polisi tâl sydd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r argymhelliad; gweler Atodiad 1 yn benodol.

7. Yn gwbl ar wahân i'r adolygiad uchod, dylid cofio fod gan bob Prif Swyddog yr hawl i'r codiadau cyflog sy'n cael eu pennu yn genedlaethol gan y Cyd-Gyngor Trafod Telerau Cenedlaethol ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r rhain yn delerau cytundebol y mae'n rhaid i bob cyflogwr weithredu arnynt. Gyda hyn mewn golwg, mae'r drafft polisi tâl yn datgan 'fod gan y Prif Swyddogion a gyflogir o dan amodau a thelerau y Cyd-Gyngor Cenedlaethol yr hawl cytundebol i unrhyw godiad cyflog cenedlaethol a ddyfernir gan y corff hwnnw a bydd y Cyngor felly yn talu'r rhain yn unol â

gofynion cytundebol presennol'. Wrth fabwysiadu'r polisi tâl blynyddol felly, mae'r Cyngor yn cymeradwyo'r codiadau cyflog cenedlaethol hyn. Ddiwedd 2022 cafwyd cadarnhad fod y cyflogwyr a'r undebau sydd yn cynrychioli prif swyddogion wedi dod i gytundeb ar gynnydd tâl ar gyfer y flwyddyn 2022/23, sef cynnydd blynyddol o £1925 ar gyflog pob swyddog. Nid yw'r trafodaethau ar gyfer 2023/24 wedi dechrau eto.

## SWYDDI O DAN LEFEL PRIF SWYDDOG

8. Mae gan staff sydd yn gweithio mewn swyddi o dan lefel Prif Swyddogion yr hawl cytundebol i godiadau cyflog sydd yn cael eu pennu gan y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gweithlu Llywodraeth Leol. Fel ar gyfer Prif Swyddogion, ddiwedd 2022 daeth ochr y cyflogwyr a'r undebau i gytundeb ar gyfer y flwyddyn 2022/23 a oedd yn rhoi cynnydd blynyddol o £1925 ar gyflog pob aelod staff. Nid yw'r trafodaethau ar gyfer 2023/24 wedi dechrau eto.

## ARGYMHELLIAD

9. Bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion i fabwysiadu'r Polisi Tâl ar gyfer 2023 / 24.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyn statudol ar y Cyngor i fabwysiadu Polisi Tâl blynyddol sydd yn cyfarch y gofynion yn y Ddeddf. Penderfyniad y Cyngor llawn yw hyn. Rwy'n fodlon fod y Polisi a argymhellir ar gyfer ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion yn cyfarch y gofynion statudol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae'r adnoddau ar gyfer ariannu ymhlygiadau'r Polisi Tâl yma wedi'u darparu yn y Gyllideb ar gyfer 2023/24, sy'n eitem ar wahân ar raglen y cyfarfod yma.